# DEDDF TRETH GWAREDIADAU TIRLENWI (CYMRU) 2017

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 4 - Gwarediadau Trethadwy A Wneir Mewn Lleoedd Heblaw Safleoedd Tirlenwi Awdurdodedig

### *Pennod 6 – Achosion Arbennig*

### Personau sy'n rhedeg busnes tirlenwi yn newid

#### *Adrannau 85 ac 86 – Marwolaeth, analluedd ac ansolfedd; a ph#er i wneud darpariaeth bellach yngl#n â marwolaeth, analluedd ac ansolfedd*

158. Mae adrannau 85 ac 86 yn berthnasol pan fo gweithredwr safle tirlenwi yn marw, yn mynd yn analluog neu'n dod yn destun gweithdrefn ansolfedd a bod person arall yn rhedeg busnes tirlenwi'r gweithredwr hwnnw. Mae'r darpariaethau yn adran 85 yn ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n rhedeg y busnes tirlenwi roi gwybod i ACC o fewn 30 o ddiwrnodau i'r diwrnod y dechreuodd y person redeg y busnes tirlenwi. Ar ôl cael hysbysiad, neu ar ei gymhelliad ei hun, caiff ACC drin y person sy'n rhedeg y busnes tirlenwi fel petai'n weithredwr y safle tirlenwi at ddibenion y dreth. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud darpariaeth o ran pryd y mae'n rhaid i driniaeth o'r fath ddod i ben.

159. Mae adran 86 yn rhoi'r p#er i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a all ychwanegu at, diddymu neu ddiwygio darpariaethau ynghylch achosion pan fo person sydd wedi rhedeg busnes tirlenwi yn marw, yn mynd yn analluog neu'n dod yn destun gweithdrefn ansolfedd.

#### *Adran 87 – P#er i wneud darpariaeth yngl#n â throsglwyddo busnesau fel busnesau gweithredol*

160. Mae adran 87 yn rhoi'r p#er i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn rheoliadau ynghylch cymhwyso'r Ddeddf a DCRhT mewn achosion pan fo busnes tirlenwi yn cael ei drosglwyddo o un person i un arall fel busnes gweithredol.